

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**  
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**TÎM COMISIYNU (OEDOLION)**

**ADRODDIAD MONITRO CONTRACT**

Enw a Chyfeiriad y Darparwr:           Compass Community Care  
  St David's House  
  New Road  
  Y Drenewydd  
  Powys  
  SY16 1RB

Dyddiad yr Ymweliad:                   08 Awst 2019

Swyddog(ion) yr Ymweliad:           Diane Davies – Swyddog Monitro Contractau

Yn bresennol:                               Louisa Britton – Unigolyn Cyfrifol

**1      Cefndir**

Mae Compass Community Care yn ddarparwr cofrestredig sy'n darparu gofal yn y cartref, wedi'i leoli yn Y Drenewydd, Powys. Maen nhw'n ddarparwr cofrestredig gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn darparu gwasanaeth byw â chymorth mewn un eiddo yn y fwrdeistref.

Mae Compass Community Care yn gwmni sefydledig sy'n darparu gwasanaeth byw â chymorth mewn sawl eiddo yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn ogystal â darparu gwasanaeth cymorth symudol.

Roedd yr ymweliad monitro a gwblhawyd yn cynnwys ymweliad â'r eiddo byw â chymorth ym mwrdeistref Caerffili ac ymweliad â'r swyddfa yn Y Drenewydd. Bu'r swyddog monitro'n archwilio nifer o ffeiliau a dogfennau, trafod prosesau a gweithdrefnau, a bu'n cyfarfod â dau denant, rhai aelodau staff a'r Unigolyn Cyfrifol.

Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, bydd y darparwr yn cael camau cywiro a chamau datblygu i'w cymryd. Camau cywiro yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (yn unol â'r ddeddfwriaeth ayb), a chamau datblygu yw'r rhai y bernir eu bod yn arferion da.

**2      Argymhellion Blaenorol**

**2.1    Camau Cywiro**

Dim

2.2 Camau Datblygu  
Dim

3 **Canfyddiadau o'r ymweliad**

3.1 Tenantiaeth

First Choice Housing Association yw landlord yr eiddo yw ac nid yw'r tenantiaid dan unrhyw orfodaeth gytundebol i dderbyn cefnogaeth gan Compass Community Care er mwyn cadw eu tenantiaeth.

Wrth ystyried tenantiaid newydd, mae'r tenantiaid presennol yn cael eu cynnwys yn y broses. Mae eu barn yn cael ei gasglu trwy gyfarfodydd a chyflwyniadau cychwynol yn y gymuned neu mewn lleoliad o ddiddordeb cyffredin. Yna, ceir sawl ymweliad dros banded o de yn yr eiddo er mwyn sicrhau cydnawsedd cyn iddynt gael cyfle i aros dros nos a symud ymlaen gyda'r broses o leoli'r tenant newydd.

3.2 Dogfennaeth

Mae'r holl ddogfennaeth yn ymwneud â'r tenantiaid yn cael ei arbed ar gyfrifiadur, gan ddefnyddio pecynnau TG Word ac Excel. Mae gan bob tenant ffolder unigol sy'n cynnwys dogfennau cyfredol a hanesyddol ac roedd y Person Cyfrifol yn gallu cael mynediad atynt a'u creu. Er bod y dogfennau'n fanwl ac wedi'u personoli, nid oeddent yn cynnwys llofnod a dyddiad gan y tenant na chynrychiolydd y tenant.

Roedd cynlluniau personol yn amlinellu'r gofynion unigol ac yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phob agwedd o ofal gan gynnwys cyfathrebu, gofynion personol, hylendid, bwyd, gofynion meddygol, cefnogaeth ariannol ayb, yn ogystal â'r hyn maen nhw'n ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi, arferion a gofynion o ran cefnogaeth. Roedd hi'n amlwg o'r cynlluniau personol a'r trafodaethau gyda'r Unigolyn Cyfrifol bod tenantiaid yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl ym mhob agwedd.

Roedd nifer o asesiadau risg mewn lle i gefnogi unigolion gyda thasgau megis meddyginiaeth, mynediad i'r gymuned, mynd allan yn y car, symud a thrin ayb. Nodwyd fod rhai o'r asesiadau risg yn gyffredinol ac yn cael eu ffeilio ar wahân.

Roedd y proffil un dudalen a welwyd yn yr eiddo yn darparu disgrifiad da o'r tenant, yn nodi'r hyn yr oedden nhw'n ei hoffi a'r hyn nad oeddent yn ei hoffi, a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ac roedd y proffil person ar goll hefyd o safon uchel, ac yn cynnwys llun o'r preswilydd er nad oedd hyn yn amlwg ar y cyfrifiadur.

Nid yw'r darparwr yn sganio ac yn cadw unrhyw ohebiaeth personol megis cynlluniau angladd, llythyrau gan weithwyr proffesiynol, y banc, siartiau monitro iechyd e.e. siartiau MAR yn y swyddfa, fodd bynnag, dywedodd yr

Unigolyn Cyfrifol fod gohebiaeth o'r fath yn cael ei ffeilio mewn ffeiliau personol yn yr eiddo, a gwelwyd tystiolaeth o hynny yn ystod fy ymweliad.

Roedd pob cynllun ac asesiad risg wedi cael ei adolygu'n flynyddol, fodd bynnag mae'r darparwr wedi cyflwyno proses yn ddiweddar i gyd-fynd â gofynion Rheoliadau Archwilio'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a bydd hyn yn sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cwblhau bob tri mis o leiaf.

Roedd pob polisi a gweithdrefn wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar ac yn cael ei storio ar ffeil gan nodi'r dyddiadau ar gyfer adolygu.

Nodwyd nad yw'r tenantiaid yn gallu arwyddo a nodi dyddiad ar eu cynlluniau, fodd bynnag, dywedodd y Person Cyfrifol fod teuluoedd a chynrychiolwyr yn rhan o bob cynllun ond yn dewis i beidio ag arwyddo ar ran y tenantiaid.

### 3.3 Ymagwedd tuag at ofal

Mae'r darparwr yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bydd yn hybu annibyniaeth unigolion mewn cymaint o agweddau o'u bywydau bob dydd â phosib. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol fod y gwaith papur a'r prosesau presennol yn cael eu diweddarau i gofnodi ac i adlewyrchu'r canlyniadau a gyflawnir mewn modd mwy effeithlon.

Mae'r cynllun personol yn cael ei roi at ei gilydd a'i ddiweddarau yn dilyn adolygiadau gyda mewnbwn gan deulu a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn bodloni'r gofynion presennol a nodwyd ac yn parhau i ganolbwyntio ar y person.

Roedd cofnodion dyddiol yn dangos bywyd cymdeithasol bywiog iawn gydag ymweliadau wythnosol i'r banc, siopa, bowllo, i'r dafarn a mynd allan am fwyd ayb. yn ogystal â'r gefnogaeth a ddarparwyd ar gyfer gofal personol, sgiliau byw'n annibynnol, meddyginiaeth ayb.

Mae nifer o siartiau'n cael eu cwblhau i gofnodi a monitro gwahanol agweddau o fywyd pob unigolyn a thystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys yn ôl yr angen.

Mae gan bob tenant broffil cyfathrebu sy'n nodi eu dealltwriaeth o'r eirfa a ddefnyddir ayb. Gwelwyd tenantiaid yn cael eu cefnogi gan aelodau staff ac roedd cyfathrebu ac ymgysylltiad da yn amlwg. Roedd y tenantiaid yn ymlacio ac i'w gweld yn gyfforddus iawn yn awyrgylch eu cartref eu hunain.

Mae'r darparwr yn annog cyfranogiad teuluoedd ac yn darparu cefnogaeth wrth gynnal perthnasau.

#### 3.4 Cwynion a Chanmoliaeth

Mae gan Compass Community Care bolisi cwynion clir er mwyn ymdrin ag unrhyw gwynion pe byddent yn codi. Mae pob cwyn yn cael ei gofnodi ar daenlen Excel ac yn derbyn ymateb o fewn amserlenni a nodir er mwyn cydymffurfio gyda'r broses gwyno. Nid yw Compass Community Care wedi derbyn cwynion eleni.

Roedd hi'n braf nodi bod canmoliaeth yn cael ei rannu'n ffurfiol gydag aelodau staff ac mae hyn wedi cael ei gydnabod ar ffeiliau'r staff.

#### 3.5 Staff

Archwiliwyd dwy ffeil staff yn ystod yr ymweliad ac roedd y ddwy wedi'u gosod yn glir gan ddefnyddio mynegai a thudalennau gwahanu er mwyn hwyluso mynediad at wybodaeth.

Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys y ddogfennaeth angenrheidiol i gefnogi'r broses recriwtio a dethol gyda chyfeirnodau DBS yn cael eu cadw ar wahân ar daenlen Excel. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau hyfforddiant ar gael i'w gweld ar ffeil

Mae Compass Community Care yn darparu proses ymsefydlu fewnol ac mae cyfnod prawf o chwe mis yn ei le er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff wedi'i hyfforddi'n llawn ac yn hyderus i gyflawni ei ddyletswyddau.

Roedd dyddiadau goruchwyllo ac arfarnu yn rheolaidd ac yn gyfredol.

Heblaw am hyfforddiant Cymorth Cyntaf, mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan Compass Community Care ac roedd y matrices hyfforddi'n dangos bod staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Mae nifer o'r staff wedi bod yn gweithio ar yr un cynllun am nifer o flynyddoedd ac erioed wedi cael unrhyw broblem gyda'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Mae'r cwmni'n buddio o linell ddyletswydd y gall pob aelod staff ei defnyddio bob awr o'r dydd i ofyn am gyngor yn ôl y galw.

Mae'r cwmni'n rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun gydag aelodau staff drwy'r cofnod cyfathrebu dyddiol yn ogystal â chyfarfodydd tîm a sesiynau cymorth a datblygu.

Gall aelodau staff siarad gydag uwch aelodau o staff a chroesewir unrhyw awgrymiadau am welliannau a fyddai o fudd i'r tenantiaid, y staff a'r cartref, e.e. gosodwyd canllawiau dwylo yn yr ystafell ymolchi, gosodwyd gwahanol

sgrin ar y gawod er mwyn hwyluso mynediad ayb.

### 3.6 Iechyd a Diogelwch Tân

Mae gan bob tenant Gynllun Personol ar gyfer Gadael Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) sy'n darparu gwybodaeth am ofynion yn ystod y dydd.

Cafwyd tystiolaeth o gynnal ymarferion tân rheolaidd, fodd bynnag, nid oedd llofnod pob aelod staff yn amlwg.

### 3.7 Sicrhau Ansawdd

Mae'r darparwr yn anfon holiaduron sicrhau ansawdd i'r holl randdeiliaid drwy gydol y flwyddyn. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu drwy ymweliadau cartref, cyfarfodydd tenantiaid, cyfarfodydd grwpiau trafod gwasanaethau a chyfarfodydd un i un. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei chasglu ac mae adroddiad blynyddol yn cael ei greu.

## 4 Camau Cywiro / Datblygu

### 4.1 Camau Cywiro

Adolygiad o gynlluniau cymorth ac asesiadau risg i'w cwblhau bob 3 mis neu ynghynt os oes angen.

Sicrhau bod aelodau staff yn llofnodi yn dilyn ymarfer tân.

### 4.2 Camau Datblygu

Cynghorir y dylai'r darparwr gyfeirio at unrhyw ymgais i sicrhau llofnod.

## 5 Casgliad

Gwelwyd arferion da yn ystod y cyfarfod monitro gyda'r darparwr yn parhau i ddiweddarau systemau a gwaith papur i fodloni gofynion RISCA.

D.S. Trefnir bod yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn am gael eu gweld.